golwg 2020 vision

# Ydyn ni wedi cyrraedd ein nod eto?

# Are we there yet?

2017

# The Diocese of St Asaph

# Esgobaeth Llanelwy

**_2020 Vision_ Progress Report**

*Enabling a Change of Culture*

The Diocese of St Asaph has always believed that a change of culture is central to the success of *2020 Vision*. We live this out as *Unlocking our Potential* which is our vision of an energised, collaborative model of church which has shared ministry at its heart and draws in new Christians to our church. Mission Areas are the centre of this vision.

*Mission Areas:* The diocese has re-organised itself into 21 Mission Areas. These are legal entities that have been created by the issue of an episcopal decree and that are governed by a Mission Area Conference. The Mission Areas have now replaced deaneries and parishes in this diocese.

This year has been a "bedding in" for our Mission Areas (MAs). Eight MAs have retained the same border and constituent churches from when they were a deanery. The remainder have experienced more radical transition and new relationships have had to be forged enabling the MA to reach its full potential. Covenants have been developed locally and practically all MAs have been commissioned in a special service.

Transition is not easy. Common problems include insufficient communication; too much administration and a lack of people with the required skills to do this work; fear that the local church will lose its identity; financial concerns about working more closely with other churches in the MA and that those who are commissioned rather than licensed (eg Worship Leaders and Pastoral Assistants) have been excluded from Ministry Teams. We have tried to address these concerns through improved communication and training.

*Transition Missioner:* The diocese appointed the Revd Canon Pam Powell as its Transition Missioner in 2015 (0.6FTE). The purpose of this role is 'To act as an agent of change in the diocese, assisting mission areas to grow into the *2020 Vision* for the diocese as set out in the "Unlocking our Potential" documentation.'

*Transition Mentors:* The DBF provided funds for the employment of Transition Mentors to support and plan for the development of MAs. The mentors were employed on a short-term contract and operated as a 'critical friend' providing an honest assessment of the current position and the opportunities for the future. Fifteen MAs elected to work with a Transition Mentor and their reports are available on the Diocesan website All but two of these MAs have now been visited by the

**_Golwg 2020_ - Adroddiad Cynnydd**

*Galluogi Newid Diwylliant*

Mae Esgobaeth Llanelwy yn credu bod newid diwylliant yn ganolog i lwyddiant *Golwg 2020*. Rydym ni'n gwireddu hyn trwy gyfrwng *Datgloi ein Potensial* sef ein gweledigaeth o fodel o eglwys gydweithredol sydd wedi'i bywiogi, sy'n rhoi lle canolog i weinidogaeth a rennir ac sy'n denu Cristnogion newydd i mewn i'n heglwys. Ardaloedd Cenhadaeth yw canolbwynt y weledigaeth hon.

*Ardaloedd Cenhadaeth:* Mae'r esgobaeth wedi aildrefnu ei hun yn 21 o Ardaloedd Cenhadaeth. Mae pob ardal yn uned gyfreithiol wedi'u creu trwy orchymyn esgob ac yn cael eu llywodraethu trwy Gynhadledd Ardaloedd Cenhadaeth. Bellach, mae'r Ardaloedd Cenhadaeth wedi disodli deoniaethau a phlwyfi yn yr esgobaeth hon.

Mae'r flwyddyn hon wedi bod yn gyfnod o sefydlu yn ein Hardaloedd Cenhadaeth (AC). Mae wyth AC wedi cadw'r un ffin ac eglwysi cyfansoddol ag oedden nhw pan oedden nhw'n ddeoniaethau. Mae'r gweddill wedi profi newid mwy sylfaenol ac mae perthnasau newydd wedi'u creu gan alluogi'r AC i gyrraedd eu llawn botensial. Datblygwyd cyfamodau yn lleol ac i bob diben mae'r AC i gyd wedi'u comisiynu mewn gwasanaeth arbennig.

Nid yw'r newid yn hawdd. Y problemau mwyaf cyffredin yw diffyg cyfathrebu, gormod o weinyddu a phrinder pobl â'r sgiliau angenrheidiol ar gyfer gwneud y gwaith hwn; pryder y bydd yr eglwys leol yn colli ei hunaniaeth; pryderon ariannol am gydweithio'n agosach ag eglwysi eraill yn yr AC a bod y sawl a gomisiynwyd yn hytrach nag a drwyddedwyd (e.e. Arweinwyr Addoli a Chynorthwywyr Bugeiliol) heb eu cynnwys yn y Timau Gweinidogaeth. Rydym wedi ceisio rhoi sylw i'r pryderon hyn trwy wella hyfforddiant a chyfathrebu.

*Cenhadwr Trawsnewid:* Penododd yr esgobaeth y Parchedig Ganon Pam Powell yn Genhadwr Trawsnewid yn 2015 (0.6FTE). Diben y rôl hon yw gweithredu fel cyfrwng o newid yn yr esgobaeth, gan helpu ardaloedd cenhadaeth i dyfu i wireddu gweledigaeth *Golwg 2020* ar gyfer yr esgobaeth fel y nodir yn y ddogfen "Datgloi ein Potensial".

*Mentoriaid Trawsnewid:* Darparodd Bwrdd Cyllid yr Esgobaeth (DBF) gyllid i gyflogi Mentoriaid Trawsnewid i gefnogi a chynllunio ar gyfer datblygu AC. Cyflogwyd y mentoriaid ar gontractau tymor byr i weithredu fel 'cyfaill beirniadol' a fyddai'n rhoi asesiad gonest o'r sefyllfa bresennol a'r cyfleoedd ar gyfer y dyfodol. Dewisodd pymtheg Ardal weithio gyda Mentor Trawsnewid ac mae

Transition Missioner and the outcomes from their specific recommendations have been audited. Most of the recommendations have been achieved or are in progress. Out of this many new projects have emerged enabling the MAs to be truly missional in the communities they represent and at the same time growing the churches.

*Spirituality:* Mark Yaconelli's inspirational 6-month residency with us in 2016 enabled us to develop spirituality across the diocese and we try to place prayer at the heart of all that we do. Mark's work focussed on spiritualty, young people and the hearth project. All three strands of work are being progressed enthusiastically, often by new members of our Christian family.

*Community Engagement:* The call in *2020 Vision* to engage with our communities has inspired and energised our diocese. We talk of standing at the doors of our churches and looking our rather than looking in. We appointed a Diocesan Community Engagement Officer in 2014 and some of our most successful projects at Mission Area level now include Holiday Hunger for children, becoming a Dementia Friendly Diocese, campaigning against modern slavery and establishing a LGBTQIA+ Chaplaincy.

*Finance:* We have tried to approach Mission Area Finance in a spirit of Christian generosity. Mission Area Share replaced Parish Share in 15 of our MAs in 2017 and the rollout will be completed in 2018. This is supported by a Mission Area Discount Scheme. Data Developments software is being used to provide consistent financial accounting and consolidated accounts for the Mission Areas. More detail is available in the Finance booklet of the *2020 Vision* toolkit: http://s3.amazonaws.com/cinw/wp-content/uploads/sites/2/2016/07/Mission-Area-Finance.pdf

*The Transformation Fund:* The DBF has 'match-funded' this RB initiative from diocesan reserves. All applications for grants from the Transformation Fund are assessed by the Diocesan Grants Committee, which is accountable to the DBF and the Standing Committee of the Diocesan Conference. All requests for funding are assessed against the key primary criterion:

"***Is the grant for a new purpose relating to 2020 Vision and would it enable transition to a Mission Area or support change for growth?"***

We have already invested £686k in the Transformation Fund and anticipate that this £1m Fund will be fully committed by the end of 2017.

*Training Together:* Our Training Forum designs and delivers a comprehensive training programme that is provided free of charge to all members of the diocese. The Training Prospectus is produced annually and is available online: http://cinw.s3.amazonaws.com/wp-content/uploads/sites/2/2016/10/Training-Together-Prospectus-English-web.pdf

eu hadroddiadau ar gael ar wefan yr Esgobaeth. Mae pob Ardal ac eithrio dwy wedi cael ymweliad gan Genhadwr Trawsnewid ac mae'r canlyniadau o'r argymhellion penodol a roddwyd wedi'u harchwilio. Mae mwyafrif yr argymhellion wedi'u cyflawni neu ar y gweill. Yn sgil hyn mae llawer o brosiectau newydd wedi'u cychwyn gan alluogi'r AC i fod yn wirioneddol genhadol yn y gymuned maen nhw'n ei chynrychioli gan sicrhau twf eu heglwys ar yr un pryd.

*Ysbrydolrwydd:* Yn sgil cyfraniad ysbrydoledig Mark Yaconelli yn ystod chwe mis ei gyfnod preswyl gyda ni yn 2016, fe'n galluogwyd i ddatblygu ysbrydolrwydd ar draws yr esgobaeth a'n nod yw rhoi gweddi wrth galon pob peth a wnawn. Canolbwyntiodd gwaith Mark ar ysbrydolrwydd, pobl ifanc a phrosiect yr aelwyd. Mae tair elfen y gwaith yn cael eu datblygu gyda brwdfrydedd, yn aml gan aelodau newydd ein teulu Cristnogol.

*Ymgysylltiad Cymunedol:* Mae'r alwad yn *Golwg 2020* i ymgysylltu â'n cymunedau wedi ysbrydoli ac adfywio ein hesgobaeth. Rydym ni'n siarad am sefyll wrth ddrysau ein heglwysi gan edrych tuag allan yn hytrach nag edrych i mewn. Yn 2014, aethom ati i benodi Swyddog Ymgysylltiad Cymunedol Esgobaethol a bellach mae rhai o'n prosiectau mwyaf llwyddiannus ar lefel Ardal Cenhadaeth yn cynnwys *Holiday Hunger* i blant, dod yn Esgobaeth sy'n Gyfeillgar i Ddementia, ymgyrchu yn erbyn caethwasiaeth cyfoes a sefydlu Caplaniaeth LGBTQIA+.

*Cyllid:* Rydym wedi ceisio wynebu Cyllid Ardaloedd Cenhadaeth gydag ymagwedd o haelioni Cristnogol. Mae Cyfran Ardal Cenhadaeth wedi disodli Cyfran y Plwyf mewn 15 o'n AC yn 2017 a chyflawnir y broses gyfan yn 2018. Cefnogir hyn gan Gynllun Disgownt Ardal Cenhadaeth. Defnyddir meddalwedd Data Developments i roi cyfrifon cyfunol a chyfrifyddu ariannol cyson ar gyfer yr Ardaloedd Cenhadaeth. Mae rhagor o fanylion ar gael yn llyfryn Ariannol pecyn cymorth *Golwg 2020*: http://s3.amazonaws.com/cinw/wp-content/uploads/sites/2/2016/07/Mission-Area-Finance-Cymraeg.pdf

*Y Gronfa Trawsnewid:* Mae Bwrdd Cyllid yr Esgobaeth wedi darparu arian cyfatebol ar gyfer y fenter hon gan Gorff y Cynrychiolwyr o gronfeydd wrth gefn yr esgobaeth. Asesir yr holl geisiadau am grant o'r Gronfa Trawsnewid gan y Pwyllgor Grantiau Esgobaethol, sy'n atebol i'r Bwrdd Cyllid a Phwyllgor Sefydlog y Gynhadledd Esgobaethol. Asesir pob cais am gyllid yn erbyn y maen prawf allweddol:

"***Ydy'r grant at ddiben newydd sy'n ymwneud â Golwg 2020 ac a fyddai'n galluogi trawsnewid i Ardal Cenhadaeth neu'n cefnogi newid ar gyfer twf?"***

Eisoes rydym ni wedi buddsoddi £686,000 yn y Gronfa Trawsnewid a rhagwelwn y bydd y Gronfa hon o £1 miliwn wedi'i gwario i gyd erbyn diwedd 2017.

Recent training to support *2020 Vision* has included Mission Area Governance, Mission Area Finance, Using Data Developments Software and Line Manager training. All our training is not just about how things need to be done but is rooted in a theology of mission

*Property:* We have been working with the RB to develop an approach to property that will support *2020 Vision*. Our aim is to organise the maintenance, repair and improvement of church buildings and churchyards to free up MAs to focus on mission activity. We are creating a new Diocesan Property Board to replace the Parsonage Board and the Churches and Pastoral Committee that will work strategically and intentionally with the MA Property Committees. We plan to employ a second Property Inspector to support our churches in their work with buildings. Detailed Property Audits are currently being completed across all our MAs.

*Hyfforddi Gyda'n Gilydd:* Mae ein Fforwm Hyfforddi yn cynllunio ac yn darparu rhaglen hyfforddi rhad ac am ddim i holl aelodau'r esgobaeth. Cynhyrchir Prosbectws Hyfforddi bob blwyddyn ac mae ar gael ar-lein: http://cinw.s3.amazonaws.com/wp-content/uploads/sites/2/2016/10/Training-Together-Prospectus-Welsh-web.pdf

Mae hyfforddiant diweddar i gefnogi *Golwg 2020* wedi cynnwys Llywodraethu Ardal Genhadaeth, Cyllid Ardal Genhadaeth, Defnyddio Meddalwedd Data Developments a hyfforddiant Rheolwyr Llinell. Mae ein hyfforddiant yn ymwneud â mwy na dim ond dweud sut y dylai pethau gael eu gwneud, yn hytrach mae wedi'i wreiddio yn niwinyddiaeth cenhadaeth.

*Eiddo:* Buom yn gweithio gyda Chorff y Cynrychiolwyr i ddatblygu ymagwedd at ein heiddo a fydd yn cefnogi *Golwg 2020*. Ein nod yw trefnu'r gwaith o gynnal a chadw, atgyweirio a gwella adeiladau'r eglwys a mynwentydd i ryddhau Ardaloedd Cenhadaeth i ganolbwyntio ar weithgareddau cenhadol. Rydym ni'n creu Bwrdd Eiddo Esgobaethol i ddisodli'r hen Fwrdd Persondai a'r Pwyllgor Eglwysi a Bugeiliol a fydd yn gweithio'n strategol a bwriadol gyda Phwyllgorau Eiddo'r Ardaloedd Cenhadaeth. Ein bwriad yw defnyddio ail Archwilydd Eiddo i gefnogi ein heglwysi yn eu gwaith gyda'r adeiladau. Mae Archwiliadau Eiddo Manwl yn cael eu cyflawni ar hyn o bryd ar draws ein holl Ardaloedd Cenhadaeth.

# The Diocese of Bangor

# Esgobaeth Bangor

***2020 Vision* in the Diocese of Bangor**

The *2012 Church in Wales Review* and *2020 Vision* have been warmly embraced in the Diocese of Bangor. We recongized that these provincial initiatives were true to our contemporary context, which is hopeful and challenging. Our response to *2020 Vision* has been to commit ourselves as a diocese to a vision of following Jesus with new energy and in new ways, and to do so by establishing and advancing three key principles, three key priorities, three key plans, and three new platforms.

**Our principles**

We are committed to three visionary principles which we believe should characterise our common life as a diocese.

1. *Worshipping God*
2. *Growing the Church*
3. *Loving the world*

**Our priorities**

We recognise that there are particular areas of our life as a diocese in which we need to invest particular energy. These have become our priorities.

1. *Nurturing disciples*
2. *Growing new ministries*
3. *Welcoming children, young people & families*

**Our plans**

Three Development Plans allow each Ministry Area to reflect on how our principles and priorities are rooted within key aspects of the life of the Ministry Area.

1. *Mission Development Plans*
2. *Property Development Plans*
3. *Finance Development Plans*

**Our platforms**

As we move forward with new energy and focus, we do so from new platforms designed to support and enhance our common life as a diocese.

1. *Ministry Areas*
2. *Synods*
3. *Diocesan structures*

***Golwg 2020* yn Esgobaeth Bangor**

Bu croeso cynnes i *Arolwg 2012 yr Eglwys yng Nghymru* a *Golwg 2020* yn Esgobaeth Bangor. Gwelsom yn y mentrau taleithiol hyn onestrwydd am ein sefyllfa gyfoes, sy'n obeithiol ac yn heriol. Ein hymateb ni i *Golwg 2020* yw ymrwymo'n hunain i wireddu gweledigaeth esgobaethol o ddilyn Crist ag egni newydd ac mewn ffyrdd newydd, ac i wneud hynny drwy sefydlu a hybu tri chonglfaen, tri chanolbwynt, tri chynllun a thri chynsail allweddol.

**Ein conglfeini**

Ymrwymwn i dri chonglfaen gweledigaethol y credwn ddylai nodweddu'n bywyd ar y cyd fel esgobaeth.

1. *Addoli Duw*
2. *Tyfu'r Eglwys*
3. *Caru'r byd*

**Ein canolbwyntiau**

Gwelwn yn glir bod rhai rhannau o'n bywyd ar y cyd yn mynnu sylw arbenning. Dyma'n canolbwyntiau.

1. *Meithrin disgyblion*
2. *Tyfu gweinidogaeth-au newydd*
3. *Croesawu plant, pobl ifanc a theuluoedd*

**Ein cynlluniau**

Bydd ein Cylluniau Datblygu yn galluogi pob Ardal Weinidogaeth i ystyried sut y caiff ein conglfeini a'n canolbwyntiau eu gwreiddio ym mywyd yr Ardal Weinidogaeth.

1. *Cynlluniau Datblygu Cenhadaeth*
2. *Cynlluniau Datblygu Eiddo*
3. *Cynlluniau Datblygu Cyllid*

**Ein cynseiliau**

Wrth i ni gamu mlaen yn obeithiol, gwnawn hynny â chynseiliau newydd sydd wedi eu gosod i gefnogi a chyfoethogi ein bywyd ar y cyd o fewn yr esgobaeth.

1. *Ardaloedd Gweinidogaeth*
2. *Synodau*
3. *Strwythurau esgobaethol*

## Our principles

*Worshipping God*

In the words of an ancient creed, our first call is to glorify and enjoy God. Worship includes gathering for praise, prayer, learning and affirmation, but encompasses all of life, and is as much about the unseen and personal sphere as the public (Matthew 6.6). To worship God therefore is to offer all of our life and to acknowledge that everything comes from God and belongs to God.

*Growing the Church*

Disciples are called to share their faith and belief in God so that others may taste and see. This happens less by intention than by design because disciples are people who know their everlasting need of grace, and share as patients might do with others also in need of a physician. In this sense the growing of the Church is as much about an increase in grace as it is in numbers (Ephesians 4.13); and yet, because the love of Christ compels us, we cannot but seek to share our hope with others.

*Loving the world*

The Scriptures bear witness to the God who loved the world so much that he gave his only begotten Son (John 3.16). This extraordinary statement means that God committed his very being to the world he created and sustains. Disciples are people who also love the world by their selfless acts of giving and generous attitudes. To love the world is to show the signs of the cross and resurrection in measurable and clear ways.

## Our priorities

*Nurturing disciples*

For the Church in Wales to be effective in its mission for the future, it needs men and women who are prepared to answer Christ's call to follow him by growing in faith and in service. This demands that we continue to invest our energy in nurturing new disciples and in deepening the discipleship of each one of us – so that we come to know more profoundly the story of faith, so that we allow it to shape our daily lives, and so that we are more ready to share its good news with others.

*Growing new ministries*

Across the diocese, we already see new vocations emerging from our emphasis on discipleship and call. We will focus over coming years on nurturing licensed and commissioned lay ministries – pastoral ministers, readers, pioneers, evangelists and family ministers. As we reshape our diocese into Ministry Areas we are also developing and resourcing the new ministry of Ministry Area Leadership, and forming and nurturing collaborative ministries in Ministry Area Teams.

## Ein conglfeini

*Addoli Duw*

Yng ngeiriau un credo hynafol, ein galwedigaeth gyntaf yw gogoneddu Duw a'i fwynhau. Mae addoli yn cynnwys ymgynnull i foli, gweddïo, dysgu a chyfeillachu; ond mae hefyd yn cwmpasu y cyfan o'n bywyd – y byd cudd a phersonol yn ogystal â'r byd cyhoeddus (Mathew 6.6). Addoli Duw, felly, yw cynnig ein holl fywyd a chydnabod bod popeth yn dod oddi wrth Dduw ac yn perthyn i Dduw.

*Tyfu'r Eglwys*

Fe'n gelwir fel disgyblion Crist i rannu ein ffydd a'n cred yn Nuw fel y gall eraill eu profi. Nid rhywbeth bwriadol neu rywbeth sydd wedi ei gynllunio yw hyn. Fel disgyblion Iesu, rydym yn adnabod ein hangen parhaus am ras, a rhannwn hynny fel y byddai claf am rannu iachâd ag eraill sydd angen meddyg. Yn yr ystyr hwn, ymwnelo twf yr Eglwys â chynnydd mewn gras yn ogystal â chynnydd mewn niferoedd (Effesiaid 4.13). ; ac eto, gan fod cariad Crist yn ein gorfodi, ni allwn beidio rhannu ein gobaith ag eraill.

*Caru'r byd*

Mae'r Ysgrythur yn tystio i Dduw a garodd y byd gymaint nes iddo roi ei unig-anedig Fab (Ioan 3.16). Mae'r datganiad rhyfeddol hwn yn golygu bod Duw wedi ymrwymo ei hun yn llwyr i'w greadigaeth. Fe'n gelwir fel disgyblion Crist i garu'r byd fel y carodd ef – drwy weithredoedd anhunanol, a thrwy haelioni afradlon. Carwn y byd drwy arddangos arwyddion y groes a'r atgyfodiad mewn ffyrdd mesuradwy a chlir.

## Ein canolbwyntiau

*Meithrin disgybli*on

Er mwyn i'r Eglwys yng Nghymru fod yn effeithiol yn ei chenhadaeth, mae angen dynion a menywod sy'n barod i ateb galwad Crist i'w ddilyn drwy dyfu mewn ffydd a gwasanaeth. Golyga hyn y dylem barhau i fuddsoddi ein hegni wrth feithrin disgyblion newydd ac wrth ddyfnhau ysbrydolrwydd pob un ohonom – er mwyn i ni ddod i wybod mwy am stori ein ffydd, er mwyn i ni ganiatáu i'r stori honno lywio ein bywydau bob dydd, ac er mwyn i ni ddod yn fwy parod i rannu ei newydd da gydag eraill.

*Tyfu gweinidogaeth-au newydd*

Ar draws yr esgobaeth, rydym eisoes yn profi galwedigaethau newydd sy'n dod i'r amlwg wrth i ni feithrin disgyblion a chanolbwyntio ar alwad Duw i wasanaethu. Byddwn yn canolbwyntio yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod ar feithrin gweinidogaethau trwyddedig a chomisiynedig lleyg – gweinidogion bugeiliol, darllenwyr, arloeswyr, efengylwyr a gweinidogion teulu. Wrth i ni ffurfio Ardaloedd Gweinidogaeth rydym hefyd yn datblygu a chefnogi gweinidogaethau

*Welcoming children, young people & families*

Our diocesan Children, Young People and Families Project aims to enable new ministries in this critical area of our life and mission. Four Children, Young People & Families Ministry Enablers (CYFMEs) work across the diocese to support Ministry Area Teams to build capacity and to develop new initiatives.

**Our plans**

*Mission Development Plans*

Ministry Area Mission Development Plans will sketch out all that we do to advance our principles and priorities in each Ministry Area. Through workshops and development events, each Ministry Area will be encouraged and enabled to consider each of the six principles and priorities, assessing where we are at the moment, and descerning where we want to be in the future.

*Property Development Plans*

Our buildings need to help us deliver our diocesan vision. A Ministry Area's Property Development Plan looks ahead to 2030. It sketches out a positive and compelling property set-up for the Ministry Area – one that will help us deliver our shared vision. Here is an opportunity to map all of the buildings, premises, properties and land assets currently owned and used by the Church; and then to sketch a vision of sacred space, flexible space, community space and accommodation that would help to fulfil the mission of the Ministry Area. We aim to be hopeful; to be realistic; and to achieve excellence.

*Finance Development Plans*

A Ministry Area's Finance Development Plan looks ahead to 2020 and beyond. It sketches out a life-giving financial framework for the Ministry Area – again, one that will help us deliver our shared vision. This is an opportunity to consider budgeting and financial administration across the Ministry Area; regular, planned giving and day-to-day generosity; fundraising, major gifts, and new income streams; and bold, money-no- object plans. We aim to be hopeful; to be realistic; and to see finances as the servant of the mission of the Church.

**Our platforms**

*Ministry Areas*

Over recent years we've seen the bold establishment of almost all of our 27 new Ministry Areas, replacing parishes and benefices with a new platform for mission that has demanded and enabled a new pattern of ministry. Each Ministry Area is led and served by a Ministry Area Leader – a stipendiary priest who exercises a collaborative ministry of oversight and spiritual leadership. The ministry of each Ministry Area is

Arweinwyr Ardaloedd Gweinidogaeth, tra hefyd yn ffurfio a meithrin Timau Ardaloedd Gweinidogaeth i arfer gweinidogaeth egnïol ar y cyd.

*Croesawu plant, pobl ifanc a theuluoedd*

Mae'n Prosiect Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd esgobaethol yn anelu at alluogi gweinidogaethau newydd yn y maes hanfodol hwn o'n bywyd a'n chenhadaeth. Mae pedwar Galluogydd Gweinidogaeth Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd (CYFMEs) yn gweithio ledled yr esgobaeth i gefnogi Timau Ardaloedd Gweinidogaeth i feithrin gallu yn y maes, ac i ddatblygu mentrau newydd.

**Ein cynlluniau**

*Cynlluniau Datblygu Cenhadaeth*

Bydd Cynllun Datblygu Cenhadaeth yr Ardal Weinidogaeth yn ystyried yr hyn a wnawn i hybu ein conglfeini a'n canolbwyntiau o fewn pob Ardal Weinidogaeth. Drwy weithdai a digwyddiadau datblygu, caiff pob Ardal Weinidogaeth y cyfle i fyfyrio ar bob un o'r chwe chonglfaen a chanolbwynt, gan asesu lle rydym ni ar hyn o bryd, ac yna ddirnad lle rydym eisiau'i gyrraedd yn y dyfodol.

*Cynlluniau Datblygu Eiddo*

Rhaid i'n hadeiladau ein helpu i wireddu'n gweledigaeth esgobaethol. Mae Cynllun Datblygu Eiddo'r Ardal Weinidogaeth yn edrych tuag at 2030. Mae'n rhoi braslun cadarnhaol a chymhellol o'r eiddo a'r adeliadau o fewn yr Ardal a fydd yn ein galluogi i wireddu'r weledigaeth. Dyma gyfle i ystyried adeiladau, a'r holl asedau o ran eiddo a thir, a ddefnyddir ar hyn o bryd; a chyfle i fraslunio gweledigaeth o adeiladau cysegredig, adeiladau hyblyg, adeiladau cymunedol a thai staff a fyddai'n hybu cenhadaeth yr Ardal Weinidogaeth. Ceisiwn fod yn obeithiol ac yn realistig, gan anelu at ragoriaeth.

*Cynlluniau Datblygu Cyllid*

Mae Cynllun Datblygu Cyllid yr Ardal Weinidogaeth yn edrych tuag at 2020 a thu hwnt. Mae'n rhoi braslun o fframwaith ariannol egnïol ar gyfer yr Ardal, a fydd eto'n ein galluogi i wireddu'n gweledigaeth. Dyma gyfle i ystyried cyllidebu a gweinyddu ariannol ar draws yr Ardal Weinidogaeth; rhoi rheolaidd, a haelioni dydd i ddydd; codi arian, anrhegion mawr, a ffrydiau incwm newydd; a chynlluniau mentrus, pe na bai arian yn ein cyfyngu. Ceisiwn fod yn obeithiol; yn realistig; ac i weld cyllid yn gwasanaethu cenhadaeth yr Eglwys.

**Ein cynseiliau**

*Ardaloedd Gweinidogaeth*

Dros y blynyddoedd diwethaf, yr ydym wedi sefydlu bron y cyfan oll o'n 27 o Ardaloedd Gweinidogaeth newydd, sydd wedi cymryd lle cynifer o blwyfi a

propelled by the Ministry Area Team – a positive and energised gathering of those licensed for public ministry, lay office-holders, employees and volunteers. As each Ministry Area is constituted as a single parish, a single Ministry Area Council (formally the Parochial Church Council) has oversight of mission and resources across the Ministry Area, supported by Congregational Meetings at each of the churches.

*Synods*

We have recently moved from twelve Area Deaneries to four Synods, two in each of the diocese's archdeaconries. The Synods provide an opportunity for representatives from across the Synod's Ministry Areas to worship God together, to receive and provide mutual support and encouragement, to share good practice, to enter into dialogue about diocesan processes as well as the needs of the wider community, and to set Synod-wide missional aims.

*Diocesan structures*

We have reshaped our diocesan committees to provide a new structure that is more streamlined and more attuned to our diocesan vision. The membership of the Diocesan Conference has been reformed to ensure that within the changing landscape of diocesan life it continues to include broad representation from across the diocese. A new Diocesan Council takes responsibility for strategy and resources, encompassing the Diocesan Board of Finance, the Bangor Diocesan Trust and the Diocesan Conference Standing Committee. The various diocesan Property Committees now meet together, taking a holistic view of Ministry Area premises and property as established in the Property Development Plans. A Finance Committee is being established which will support the financial oversight functions of the Diocesan Council, and assist Ministry Areas with their financial development. The Cadfan Group regularly brings together Ministry Area Leaders to worship and confer with the Bishop and other colleagues.

bywiolaethau. Dyma lwyfan newydd ar gyfer cenhadaeth – llwyfan sydd wedi mynnu a galluogi patrwm newydd o weinidogaethu. Caiff pob Ardal Weinidogaeth ei harwain a'i gwasanaethu gan pob Ardal Weinidogaeth – offeiriad cyflogedig sy'n arfer gweinidogaeth gydweithredol o oruchwyliaeth ac arweinyddiaeth ysbrydol. Mae gweinidogaeth pob Ardal Weinidogaeth yn cael ei yrru gan Dîm yr Ardal Weinidogaeth – ymgynulliad cadarnhaol ac egnïol o'r rhai a drwyddedwyd ar gyfer y weinidogaeth gyhoeddus, swydd-ddeiliaid lleyg, gweithwyr cyflogedig a gwirfoddolwyr. Yn sgil cyfansoddi pob Ardal Weinidogaeth fel un plwyf, ceir un Cyngor yr Ardal Weinidogaeth (yn ffurfiol y Cyngor Plwyf Eglwysig) ym mhob Ardal Weinidogaeth i oruchwylio cenhadaeth ac adnoddau ledled yr Ardal; fe'i gefnogir gan Gyfarfodydd Cynulleidfaol ym mhob un o'r eglwysi.

*Synodau*

Bu i ni'n ddiweddar symud o ddeuddeg Deoniaeth Bro i bedair Synod, dwy ym mhob un o archddiaconiaethau'r esgobaeth. Mae'r Synodau'n rhoi cyfle i gynrychiolwyr o bob un o Ardaloedd Gweinidogaeth y Synod i addoli Duw ar y cyd, i dderbyn a darparu cefnogaeth ac anogaeth, i rannu arfer da, i ymddiddan am brosesau esgobaethol yn ogystal ag anghenion y gymuned ehangach, ac i osod amcanion cenhadol Synod-eang.

*Strwythurau esgobaethol*

Rydym wedi ail-lunio'n pwyllgorau esgobaethol i ddarparu strwythur newydd sy'n symlach ac yn cyfateb yn well i'n gweledigaeth esgobaethol. Mae aelodaeth Cynhadledd yr Esgobaeth wedi ei ddiwygio er mwyn sicrhau, o ystyried ein cyd-destun newydd, y cawn gynrychiolaeth eang o'r esgobaeth gyfan. Mae Cyngor yr Esgobaeth ar ei newydd wedd yn gyfrifol am strategaeth ac adnoddau esobaethol, gan gwmpasu Bwrdd Cyllid yr Esgobaeth, Ymddiriedolaeth Esgobaeth Bangor a Phwyllgor Sefydlog Cynhadledd yr Esgobaeth. Mae'r Pwyllgorau Eiddo Esgobaethol bellach yn cwrdd ar y cyd i gynorthwyo Ardaloedd Gweinidogaeth gyda'u hadeiladau a'u heiddo fel y'u hamlinellir yn y Cynlluniau Datlygu Eiddo. Bydd Pwyllgor Cyllid yn goruchwylio ein cyllid esgobaethol ar ran Cyngor yr Esgobaeth ac yn cynorthwyo Ardaloedd Gweinidogaeth gyda'u datblygiad ariannol. Mae Grŵp Cadfan yn dod ag Arweinwyr Ardaloedd Gweinidogaeth ynghyd â'r Esgob a chydweithwyr eraill i addoli ac ymddiddan ar y cyd.

# The Diocese of St Davids

# Esgobaeth Tyddewi

In 2013 the Diocesan Conference voted to support the Bishop's vision for a Diocesan Strategy for growth, the key elements of which were:

- **Local Ministry Areas**: coalitions of parishes, agreeing to work together under the gentle oversight of an LMA Leader, capable of sustaining at least two stipendiary clergy, and committed to collaborative ministry, lay and ordained, having an outward-looking mission focus
- **Focal Ministers:** someone to enable and lead the ministry of all the people in a particular congregation, energizing them for mission from a position at the heart of the church
- **Varieties of ministry:** while the diocese would retain around 70 stipendiary clergy, we would encourage vocations to Non-Stipendiary Ministry, Non-Stipendiary Local ministry and to specialized lay ministries, such as Reader, Children's Worker or Evangelist.

The vision which lay behind the specific details of the strategy included:

- **Localism**: The Bishop's Staff were convinced that the energy of the diocese lay in parishes and congregations. The strategy aimed to make the diocese a permission-giving and resource-supplying entity, rather than a controlling body.
- **Mission**: From discussions around the diocese, it was clear many people in their parishes recognized the need for our congregations to redirect their energies outward to mission, and the diocesan strategy aimed to give them resources to help shift their focus away from simply concentrating on maintenance.
- **Ministry**: It seemed clear to those involved in planning for ministry and mission that for a couple of generations the diocese (like so much of the church) had been spreading a reducing number of stipendiary clerics thinner and thinner. This process went alongside declining congregations and may well be responsible for much of the decline we have experienced.

The strategy is to try to break the bottleneck caused by all ministry being based on stipendiary clerics. Identifying and training Focal Ministers will ensure regular worship and a recognizable person in each community to be the face of the church. Stipendiary clerics would need to train to adjust to new roles of supervision of teams of lay and ordained ministers.

Yn 2013 pleidleisiodd y Gynhadledd Esgobaethol dros gefnogi gweledigaeth yr Esgob am Strategaeth Esgobaethol ar gyfer twf, a dyma'r elfennau allweddol:

- **Ardaloedd Gweinidogaeth Lleol**: cynghreiriau o blwyfi, yn cytuno i gydweithio dan oruchwyliaeth ysgafn Arweinydd Ardal Weinidogaeth Leol, a all gynnal o leiaf ddau glerig cyflogedig, sy'n ymrwymedig i weinidogaeth gydweithredol, ordeiniedig a lleyg, gyda ffocws genhadol sy'n edrych tuag allan
- **Gweinidogion Allweddol:** rhywun i alluogi ac arwain gweinidogaeth yr holl bobl mewn cynulleidfa benodol, gan ennyn eu brwdfrydedd i genhadu o sefyllfa sydd wrth galon yr eglwys.
- **Gweinidogaethau amryfal:** er y byddai'r esgobaeth yn parhau i gadw oddeutu 70 o glerigion cyflogedig, byddem yn annog galwadau i'r Weinidogaeth Anghyflogedig, Gweinidogaeth Anghyflogedig Leol ac i weinidogaethau arbenigol megis Darllenydd, Gweithiwr Plant ac Efengylwr.

Roedd y weledigaeth a oedd yn sail i fanylion penodol y strategaeth yn cynnwys:

- **Plwyfoldeb**: Roedd staff yr Esgob wedi'u hargyhoeddi bod egni'r esgobaeth yn y plwyfi a'r cynulleidfaoedd. Nod y strategaeth oedd gwneud yr esgobaeth yn gyfrwng a oedd yn cyflenwi adnoddau ac yn rhoi caniatâd, yn hytrach na bod yn gorff rheoli.
- **Cenhadaeth**: O'r trafodaethau o gwmpas yr esgobaeth, roedd hi'n amlwg bod llawer o bobl yn eu plwyfi'n cydnabod yr angen i'n cynulleidfaoedd ailgyfeirio eu hegni gan ymestyn allan i genhadu, a nod y strategaeth esgobaethol oedd rhoi'r adnoddau iddyn nhw er mwyn helpu i symud eu ffocws oddi ar ganolbwyntio ar gynnal a chadw yn unig.
- **Gweinidogaeth**: I'r rhai a oedd yn ymwneud â'r gwaith o gynllunio gweinidogaeth a chenhadu, ymddangosai'n amlwg fod yr esgobaeth (fel cymaint o'r eglwys) ers sawl cenhedlaeth wedi bod yn gwasgaru nifer lai o glerigion cyflogedig yn fwyfwy tenau. Roedd y broses hon wedi digwydd ochr yn ochr â chynulleidfaoedd yn dirywio, a gallai'n wir fod yn gyfrifol am lawer o'r dirywiad a brofwyd gennym.

Y strategaeth yw ceisio rhoi terfyn ar y rhwystr a achosir gan weinidogaeth gyfan sy'n seiliedig ar glerigion cyflogedig. Trwy nodi a hyfforddi Gweinidogion

Altogether, the vision is for a more co-operative and collaborative type of ministry and *Growing Hope/Meithrin Gobaith* was adopted for the diocesan strategy. *Growing Hope* was defined as working in four areas of the church's life:

1. **Restructuring the Diocese**

This entailed forming Local Ministry Areas. Unlike some dioceses, it was never intended that parishes should disappear or amalgamate into larger blocs – this would have been turning our back on the commitment to localism as a core ideal. After discussion about the best groupings for LMAs, parishes voted on whether to join the LMA of which they were to be a part. The Bishop then presided at a service in each LMA at which parish representatives signed a 'Compact Agreement' to enter the LMA, and those in authorized ministry signed a parallel agreement committing to work collaboratively. Significantly, each LMA is a coalition or alliance of parishes each of which is responsible for its own life and witness (and finance).

Currently 21 LMAs have been inaugurated which cover approximately 61% of the Diocese or out of 320 parishes, 195 (or 61%) are within a LMA.

2. **Re-imagining Ministry**

Essential to *Growing Hope* is getting away from the idea that 'ministry' equals a paid Vicar in a single parish. The strategy tries to re-imagine ministry by recognising and encouraging a wider range of forms of service and recognises, for example, that being a churchwarden is a ministry as is leading a children's or youth group, or helping with Messy Church. Through the work of Vocations Advisers and by starting a Fellowship of Vocation, the diocese has tried to help people realise how God might be calling them to serve him. Alongside that, training for ministry now underlines the importance of working in a team, gaining strength and encouragement from the gifts which others bring, whether lay or ordained.

Within the Diocese there are 88 Stipendiary priests, 5 Interim ministers (4 of which are stipendiary), 15 NSM's, 23 NSM(L) 's and 70 Readers. In addition, there are 3 Lay Evangelists, a Children and Youth Coordinator and 4 Children and Youth Project Workers.

3. **Revitalising the Churches**

In dealing with the life of churches, and of individuals within churches, the strategy moved from what is organisational and more or less controllable, to what is spiritual and entirely a matter of God's gracious work among us. The drafting of a diocesan prayer was one of the first actions in implementing the strategy. By promoting such initiatives as 'Leading Your Church into Growth' (LYCIG) and a series of 'Growing Hope' days, the diocese has tried to disseminate ideas which can help congregations grow, not just numerically, but upwards in their relationship with God, and outwards in their impact

Allweddol, mae modd sicrhau addoli rheolaidd ac unigolyn cydnabyddedig ym mhob cymuned i fod yn wyneb i'r eglwys. Byddai angen i glerigion cyflogedig gael eu hyfforddi i addasu i'w rôl newydd o oruchwylio timau o weinidogion ordeiniedig a lleyg.

Mae'r weledigaeth gyfan yn llawer mwy cydweithredol a chydweithrediadol a mabwysiadwyd y strategaeth esgobaethol *Meithrin Gobaith/Growing Hope.* Diffiniwyd Meithrin Gobaith i weithio mewn pedwar o feysydd ym mywyd yr eglwys:

1. **Ailstrwythuro'r Esgobaeth**

Roedd hyn yn cynnwys creu Ardaloedd Gweinidogaeth Leol. Yn wahanol i rai esgobaethau, nid oedd erioed yn fwriad i blwyfi ddiflannu neu eu cyfuno i mewn i grwpiau mwy o faint - byddai hyn yn gyfystyr â'n bod yn troi cefn ar yr ymrwymiad i blwyfoldeb fel delfryd graidd. Ar ôl trafod sut dylid carfanu'r Ardaloedd, pleidleisiodd y plwyfi a oedden nhw am ymuno â'r Ardal a bennwyd ar eu cyfer ai peidio. Yna, bu'r Esgob yn llywyddu yn y gwasanaethau ym mhob Ardal lle'r arwyddodd cynrychiolwyr y plwyf 'Gytundeb Ffurfiol' i ymuno â'r Ardal Gweinidogaeth Leol, gyda'r sawl a oedd mewn gweinidogaeth awdurdodedig yn arwyddo cytundeb cyfatebol i ymrwymo i weithio'n gydweithredol. Yn arwyddocaol, mae pob Ardal Gweinidogaeth Leol yn gynghrair neu'n glymblaid o blwyfi lle mae pob un yn gyfrifol am eu bywyd a'u tystiolaeth eu hun (a'u cyllid).

Ar hyn o bryd mae 21 o Ardaloedd wedi'u sefydlu sy'n cwmpasu oddeutu 61% o'r Esgobaeth, neu, o 320 o blwyfi mae 195 (neu 61%) yn perthyn i Ardal Gweinidogaeth Leol.

2. **Ail-ddychmygu Gweinidogaeth**

Sail yr ymgyrch *Meithrin Gobaith* yw troi cefn ar y syniad bod 'gweinidogaeth' yn gyfystyr â Ficer cyflogedig mewn plwyf unnigol. Mae'r strategaeth yn ceisio ail-ddychmygu gweinidogaeth trwy gydnabod ac annog ystod ehangach o ffurfiau ar wasanaeth, gan gydnabod, er enghraifft, fod gwaith warden yr eglwys yn weinidogaeth fel y mae bod yn arweinydd grŵp pobl ifanc neu blant, neu fod yn gynorthwyydd pan gynhelir Llan Llanast. Trwy waith Cynghorwyr Galwedigaethau a thrwy gychwyn Cyfeillach Alwedigaethol, mae'r esgobaeth wedi ceisio helpu pobl i sylweddoli sut y gall Duw fod yn galw arnynt i'w wasanaethu. Ynghyd â hynny, bellach mae hyfforddiant ar gyfer y weinidogaeth yn tanlinellu pwysigrwydd gweithio fel tîm, ennyn cryfder ac anogaeth o'r doniau mae eraill yn eu cyfrannu, yn lleygion neu'n unigolion ordeiniedig.

Yn yr Esgobaeth mae 88 o offeiriaid cyflogedig, 5 o weinidogion interim (4 ohonynt yn gyflogedig), 15 o Weinidogion Anghyflogedig NSM's, 23 o Weinidogion Anghyflogedig Lleol NSM(L) a 70 o Ddarllenwyr. Yn ogystal, mae 3 Efengylydd Lleyg, Cydlynydd Plant a Phobl Ifanc a 4 Gweithiwr Prosiect Plant a Phobl Ifanc.

on their communities. A Strategy Fund was created to enable parishes to ask for resources to get their own mission projects going. The diocese has started a Parish Growth Group, and more recently Bishop Joanna is bringing together a team for evangelism and evangelization, under her leadership to continue and deepen this part of the strategy. Funding from the Transformation Fund monies is now to be utilised to fund the employment of a Mission Resources Officer and the Centre of Mission project in Haverfordwest. The latter is a joint project with the Church Army.

4. **Rejuvenating the People**

One of the observations which our strategy consultant brought to us was that when churches grow, they grow younger, and when they shrink, they shrink older. Reaching new generations with the gospel is clearly a crucial task, for our diocese as for churches all over the country. The diocese decided to make a major investment in youth and children's work, using part of the legacy it received, and money allocated by the Province, the Transformation Fund, to promote mission in the diocese. This has allowed the employment of a Children and Youth Work Coordinator and four children and youth project workers in places which bid for the money available. The diocese has also, through such things as 'Growing Hope' days, tried to encourage Messy Church and other fruitful new ideas of working with families.

**What we have Learned**

1. **Restructuring the Diocese**

This was the simplest part of the strategy because it has been largely organizational. We have discovered that creating LMAs needs to be done with sensitivity to local conditions. In some instances, LMAs have been created and then have required regrouping because the original configuration did not work. So, while we would be glad to reach the point at which we can say the work is done, we have also had to keep arrangements tentative and able to respond to feedback from the people who have to work in these structures (localism). In general, clergy have been ready and able to see the potential of LMAs for better resourcing for mission and some very creative and positive things are now happening around the diocese. The fears of some that the strategy was a church closure plan in disguise have been allayed – though probably the hopes of others that the strategy would cut out the dead wood of unneeded buildings have been dampened.  There remain some areas in which it has been impossible to establish an LMA – the next stage will be to get these latecomers to embrace the vision. There are LMAs which are working together well while there are others in which, apart from signing the Compact Agreement at the start, little seems to have happened. This, too, also needs addressing.

3. **Ailfywiogi'r Eglwysi**

Wrth ymdrin â bywyd eglwysi, ac unigolion yn yr eglwysi, symudodd y strategaeth o fod yn rhywbeth trefniadol a lled hydrin, i fod yn rhywbeth ysbrydol sy'n fater llwyr o waith graslon Duw yn ein plith. Un o'r camau cyntaf wrth roi'r strategaeth hon ar waith oedd llunio gweddi esgobaethol. Trwy hyrwyddo mentrau megis '*Leading Your Church into Growth*' (LYCIG) a chyfres o ddiwrnodau 'Meithrin Gobaith', mae'r esgobaeth wedi ceisio lledaenu syniadau a all helpu cynulleidfaoedd i dyfu nid yn unig o ran nifer, ond yn eu perthynas â Duw, gan estyn allan yn eu heffaith ar eu cymunedau. Crëwyd Cronfa Strategaeth i alluogi plwyfi i ofyn am adnoddau i roi eu prosiectau cenhadol hwy ar waith. Mae'r esgobaeth wedi cychwyn Grŵp Tyfu Plwyfi, ac yn fwy diweddar mae'r Esgob Joanna yn cynnull tîm ar gyfer efengylu ac efengyleiddio, o dan ei harweinyddiaeth i barhau a dyfnhau y rhan hon o'r strategaeth. Bellach mae arian o'r Gronfa Drawsnewid i gael ei ddefnyddio i gyflogi Swyddog Adnoddau Cenhadol a phrosiect Canolfan Cenhadu yn Hwlffordd. Mae'r olaf yn brosiect ar y cyd â Byddin yr Eglwys.

4. **Ymadnewyddu'r Bobl**

Roedd un o'r sylwadau a gyflwynwyd inni gan ein hymgynghorydd strategaeth fel a ganlyn, wrth i'r eglwys dyfu, daw yn ifancach, ac wrth iddi grebachu aiff yn hŷn. Mae cyflwyno'r efengyl gerbron cenedlaethau newydd yn amlwg yn dasg hanfodol, i'n hesgobaeth ac i'n heglwysi ledled y wlad. Penderfynodd yr esgobaeth fuddsoddi'n drwm mewn gwaith gyda phobl ifanc a phlant, gan ddefnyddio rhan o'r gymynrodd a dderbyniodd ac arian a ddyrannwyd gan y Dalaith o'r Gronfa Trawsnewid, i hyrwyddo cenhadaeth yn yr esgobaeth. Mae hyn wedi ein galluogi i gyflogi Cydlynydd Gwaith Plant a Phobl Ifanc a phedwar gweithiwr prosiect plant a phobl ifanc yn y mannau sydd wedi gwneud cais am yr arian a oedd ar gael. Hefyd, mae'r esgobaeth, yn sgil ymgyrchoedd fel diwrnodau 'Meithrin Gobaith', wedi ceisio annog Llan Llanast a syniadau newydd buddiol eraill o weithio gyda theuluoedd.

**Beth rydym wedi'i ddysgu**

1. **Ailstrwythuro'r Esgobaeth**

Dyma oedd rhan symlaf y strategaeth oherwydd mai gwaith trefniadol oedd hyn yn bennaf. Rydym wedi sylweddoli wrth lunio Ardaloedd Gweinidogaeth Lleol fod angen sensitifrwydd gan ystyried amodau lleol. Mewn rhai mannau, mae Ardaloedd wedi'u creu ac yna bu'n rhaid aildrefnu am nad oedd y drefn wreiddiol yn gweithio. Felly, er y byddem yn falch o allu dweud ein bod wedi cyrraedd y man lle mae'r gwaith wedi'i gyflawni, rydym wedi gorfod cadw trefniadau yn amhendant er mwyn gallu ymateb i adborth gan bobl sy'n gorfod gweithio o fewn y strwythurau hyn (plwyfoldeb). Yn gyffredinol, mae

The future of Deaneries now also need to be addressed. Currently our thinking is that LMAs will become coterminous with Deaneries, effectively merging the responsibilities of each.

**2. Re-imagining Ministry**

In the area of ministry, a lot has been achieved over the last five years. The diocese has found some excellent Vocations Advisers and together with the establishment of the Fellowship of Vocation, they have done a great deal to help individuals find and follow their vocation and calling – whether or not it is to ordained ministry. The concept that ministry and service is a calling of all Christians is beginning to take root and new forms of authorized ministry – such as NSM(L) – are starting to be recognized and accepted. Focal Ministers are foundational to the strategy – without them and the stability they can give to congregations, the strategy would amount to little more than administrative reorganization. The good news is that a fair number of Focal Ministers have been identified and commissioned. Preliminary figures suggest that Focal Ministers are doing what we hoped they would do, and are turning around decline in the churches they serve. The not-so-good news is that this first wave was in many cases people already exercising this kind of ministry and so were the easy ones to find. Our process consultant has reminded us that we will need to identify around fifteen Focal Ministers per year to make the vision a reality. This will be a challenge, and in some of the areas where the need is most acute, the supply is weakest.

**3. Revitalising the Churches**

While we can measure attendance (though even that is open to discussion), we cannot measure the spiritual vitality of churches. We can say that overall, decline continues and growing churches are an exception. But the rate of decline seems to be slowing, and it is smaller churches which are showing (in many instances) the most hopeful signs of growth. One aspect of the current phase of the strategy is to give particular attention to the slightly larger churches we have (with 50+ ASA), as these – here as elsewhere – account for the largest part of the decline we experience. We are also following up LYCIG to see whether churches are in fact making use of this resource. It has also been good to see the response to the 'Thy Kingdom Come' prayer initiative, which indicates a commitment to spiritual growth and engagement around the diocese.

**4. Rejuvenating the People**

Appointing a diocesan youth and children's officer has been a vital and positive step. Her researches (2016) found that more was going on than might have been thought, and she has done a lot to extend work with youth and children around the diocese. In general, more is being done with children (up to Key Stage 2)

clerigion wedi bod yn barod ac yn alluog i weld potensial Ardaloedd Gweinidogaeth o ran darparu gwell adnoddau ar gyfer cenhadu ac mae rhai pethau creadigol a chadarnhaol yn digwydd yn awr o gwmpas yr esgobaeth. Tawelwyd ofnau'r aelodau hynny oedd yn credu mai cau eglwysi oedd nod lechwraidd y strategaeth hon - ond mae'n debyg y digalonnwyd gobeithion eraill y byddai'r strategaeth yn cael gwared ar y beichiau sydd ynghlwm wrth adeiladau diangen. Mae rhai ardaloedd lle bu'n amhosibl creu Ardal Weinidogaeth, a'r cam nesaf fydd dwyn yr hwyrddyfodiaid hyn i gofleidio'r weledigaeth. Mae rhai Ardaloedd Gweinidogaeth Lleol yn cydweithio'n dda, tra bod fawr ddim wedi digwydd mewn ardaloedd eraill, ac eithrio arwyddo'r Cytundeb Ffurfiol. Mae angen mynd i'r afael â hyn hefyd. Mae angen mynd i'r afael â dyfodol Deoniaethau hefyd. Ar hyn o bryd, credwn y bydd Ardaloedd Gweinidogaeth Lleol yn dod yn gyfystyr â Deoniaethau, ac i bob diben yn cyfuno cyfrifoldebau ei gilydd.

**2. Ail-ddychmygu Gweinidogaeth**

Ym maes gweinidogaeth, cyflawnwyd llawer dros y pum mlynedd diwethaf. Mae'r esgobaeth wedi dod o hyd i rai Cynghorwyr Galwedigaeth ardderchog ac yn ogystal â sefydlu Cyfeillach Alwedigaeth, maen nhw wedi gwneud llawer i helpu unigolion i ddod o hyd i'w galwedigaeth a'u galwad – yn y weinidogaeth ordeiniedig ac fel arall. Mae'r cysyniad bod gweinidogaeth a gwasanaeth yn alwad ar bob Cristion yn dechrau hel gwreiddiau ac mae mathau newydd o weinidogaeth awdurdodedig megis Arweinwyr Ardaloedd Gweinidogaeth Lleol yn dechrau cael eu cydnabod a'u derbyn. Mae Gweinidogion Allweddol yn greiddiol i'r strategaeth – hebddynt hwy a'r sefydlogrwydd maen nhw'n gallu ei ddarparu i gynulleidfaoedd, ni fyddai'r strategaeth yn fawr ddim mwy nag aildrefnu gweinyddol. Y newyddion da yw bod nifer go lew o Weinidogion Allweddol wedi'u nodi a'u comisiynu. Mae'r ffigurau cyntaf yn awgrymu bod y Gweinidogion hyn yn gwneud yr hyn roedden ni'n ei obeithio, ac yn adfer y dirywiad yn yr eglwys lle maen nhw'n gwasanaethu. Ond, yn anffodus roedd y don gyntaf ar lawer ystyr yn cynnwys pobl a oedd eisoes yn arfer gweinidogaeth o'r math hwn ac felly'n rhai hawdd eu canfod. Mae ein hymgynghorydd proses wedi ein hatgoffa y bydd yn rhaid i ni ddod o hyd i oddeutu pymtheg o Weinidogion Allweddol y flwyddyn er mwyn troi'r weledigaeth yn ffaith. Bydd hyn yn gryn her, ac mae'r cyflenwad ar ei wannaf yn rhai o'r ardaloedd lle mae'r angen mwyaf dybryd.

**3. Ailfywiogi'r Eglwysi**

Mae gennym y modd i fesur presenoldeb (er bod hynny'n agored i drafodaeth), ond allwn ni ddim mesur bywiogrwydd ysbrydol eglwysi. Yn gyffredinol gallwn ddweud mai parhau y mae'r dirywiad ac mai eithriad yw eglwysi sydd ar gynnydd. Ond ymddengys fod graddfa'r

than with older young people. What are called 'youth groups' often turn out on inspection to be late primary children. Nonetheless, in many places Messy Church has taken off. It is commonplace to say that Messy Church is not a way of bringing families into existing churches, it *is* church in itself. But for that to be true, Messy Churches will have to move from being essentially missions supported by churches and turn into genuine churches (self-supporting, self-governing and self-propagating). It is good to see new links being established between Plant Dewi and the diocese's children's work. We are a long way from where we want to be with youth and children's work, but there can be no question that with the youth and children's officer, with the children and youth project workers in place in key points in the diocese, and with the support now in place for children and youth work throughout the diocese, the picture is much brighter than it was five years ago.

dirywiad yn arafu, ac mai eglwysi bach sy'n dangos (mewn nifer o enghreifftiau) yr arwyddion twf mwyaf gobeithiol. Un agwedd ar gam cyfredol y strategaeth yw rhoi sylw penodol i'n heglwysi mwy o faint (gyda 50+ ASA), gan eu bod – yma fel mewn mannau eraill – yn cyfrif am y gyfran fwyaf o'r dirywiad rydym yn ei brofi. Rydym hefyd yn dilyn mentrau LYCIG i weld a yw eglwysi yn defnyddio'r adnodd hwn mewn gwirionedd. Hefyd, mae wedi bod yn dda gweld yr ymateb i'r fenter weddi 'Deled dy Deyrnas', sy'n dangos ymrwymiad i dwf ysbrydol ac ymgysylltiad ledled yr esgobaeth.

4. **Ymadnewyddu'r Bobl**

Mae penodi swyddog esgobaethol plant a phobl ifanc wedi bod yn gam hanfodol a chadarnhaol. Gwelodd yn ei gwaith ymchwil (2016) fod mwy yn digwydd nag yr oedd pobl yn ymwybodol ohono, ac mae wedi gwneud llawer i estyn gwaith gyda phlant a phobl ifanc o gwmpas yr esgobaeth. Yn gyffredinol, mae mwy yn digwydd gyda'r plant (hyd at Gyfnod Allweddol 2) na gyda phobl ifanc hŷn. Mae'r hyn a elwir yn grwpiau pobl ifanc yn aml o'u harchwilio yn blant oed cynradd hŷn. Beth bynnag am hynny, mae Llan Llanast wedi bod yn llwyddiant. Dywedir yn gyffredin nad modd i ddod â theuluoedd i mewn i eglwysi presennol yw Llan Llanast, ond mai dyma *yw* yr eglwys yn wir. Ond er mwyn i hynny fod yn wir, bydd yn rhaid i sesiynnau Llan Llanast symud o fod yn genadaethau syml a gefnogir gan eglwysi i fod yn wir yn eglwysi o'r iawn ryw (hunangefnogol, hunanlywodraethol a hunangynhaliol). Mae'n dda gweld cysylltiadau newydd yn cael eu sefydlu rhwng Plant Dewi a gwaith plant yr esgobaeth. Nid ydym yn agos i'r man lle'r hoffem ni fod gyda gwaith plant a phobl ifanc, ond gallwn fod yn sicr, yn sgil y swyddog plant a phobl ifanc, y gweithwyr prosiect plant a phobl ifanc mewn mannau allweddol yn yr esgobaeth a gyda'r gefnogaeth bellach ar waith ar gyfer gwaith plant a phobl ifanc ledled yr esgobaeth, fod y darlun yn llawer goleuach nag ydoedd bum mlynedd yn ôl.

# The Diocese of Llandaff

# Esgobaeth Llandaf

**Ministry Area Development Llandaff 2017**

You can't really put a Llandaff Ministry Area into a box. Grown from the ground up, they will look different.

However, you can think of most parishes in one of four groups:

- Ministry Area
- Partnership
- Conversation stage
- Single Parishes.

Many Ministry Areas will acknowledge that they have a long way to go. Some partnerships are proving effective and there are many important initiatives that precede the 2012 Church in Wales Review. Many individual Parishes are very committed to lay ministry, connecting with Young People, nurturing vocations, reaching those unfamiliar with the church and serving their community in new ways. However, the journey to Ministry Area is an important part of our response to our 2020 vision. Not just maintaining the Church but growing it:

- 24% of the Diocese is served by a Ministry Area
- 17% of the Diocese is served by Parishes working together in significant partnerships
- 24% of the Diocese is currently planning or are engaged in a Conversation process to form a Ministry Area.

**So, what are these groups like?**

**Datblygu Ardal Weinidogaeth Llandaf 2017**

Does dim modd rhoi un o Ardaloedd Gweinidogaeth Llandaf mewn un adran. Gan eu bod wedi tyfu o'r gwaelod i fyny, fe fyddan nhw'n ymddangos yn wahanol.

Er hynny, gallech chi ddweud bod y rhan fwyaf o blwyfi yn perthyn i un o bedwar grŵp:


- Ardal Weinidogaeth
- Partneriaeth
- Cyfnod trafod
- Plwyfi Unigol

Bydd llawer o Ardaloedd Gweinidogaeth yn cydnabod bod ganddyn nhw ffordd bell i fynd. Mae rhai partneriaethau'n ddigon effeithiol ac mae llawer o fentrau pwysig wedi eu sefydlu cyn Arolwg yr Eglwys yng Nghymru 2012. Mae llawer o blwyfi unigol yn ymroddedig iawn i weinidogaeth leyg, yn cysylltu â Phobl Ifanc, yn meithrin galwedigaethau, yn cyrraedd at bobl sy'n anghyfarwydd â'r eglwys ac yn gwasanaethu eu cymuned mewn ffyrdd newydd. Fodd bynnag, mae'r daith i Ardal Weinidogaeth yn rhan bwysig o'n hymateb i'n gweledigaeth ar gyfer 2020. Nid dim ond cynnal yr Eglwys ond ei meithrin:

- Mae 24% o'r Esgobaeth yn cael ei gwasanaethu gan Ardal Weinidogaeth
- Mae 17% o'r Esgobaeth yn cael ei gwasanaethu gan Blwyfi yn cydweithio mewn partneriaethau arwyddocaol
- Mae 24% o'r Esgobaeth ar hyn o bryd yn bwriadu neu wrthi'n Trafod er mwyn llunio Ardal Weinidogaeth

**Felly, sut grwpiau ydyn nhw?**

## *2020 Vision* Progress   Cynnydd *Golwg 2020*




- Ministry Area or Groups (24%)
- *2020 Vision* Partnership (17%)
- Conversation in progress or planned (24%)
- Single or Grouped Parishes (38%)

- Ardal Weinidogaeth neu Grwpiau (24%)
- Partneriaethau *Golwg 2020* (17%)
- Trafod yn digwydd neu ar y gweill (24%)
- Plwyfi Sengl neu mewn Grwpiau (38%)

Ministry Areas can vary from:

- a collection of small rural parishes working together
- an urban Rectorial Benefice with a team of full time lay and ordained staff, serving 30-50,000 people

Partnerships are often a long way on the journey to seeing themselves as Ministry Areas.

In many partnerships:

- Clergy meet weekly for prayer
- Licenced Ministries are licenced to all of the parishes
- Special events are celebrated together
- e.g. Holy week, Thy Kingdom Come
- Youth and children's events are arranged for all partners
- There is a covenant or partnership agreement

In one partnership, a large Urban parish supports a very small parish which is in turn beginning to thrive. The Church in Wales Review suggests that a Ministry Area is not the right model for all churches. However, where a church is independent and self-supporting it should be reaching out to support other churches around it.

**Llandaff Diocese Statistics**

Like many Dioceses, Llandaff encompasses farming communities with a network of ancient churches together with modern towns and villages, industrial and post-industrial. Many of the valleys maintain small close-knit village communities with limited access to other towns. The Diocese is about 19% rural but encompasses a large part of the Capital.

According to the Office for National Statistics on average 32.1% of the population of Wales say that they have no religious faith. The average number saying that they have no religious faith in the Rhondda Cynon Taff area is 40.8% and in many wards, exceeds 50%.

Just over 1 million people are served by the parishes of Llandaff, a third of the population of Wales. We have about 230 church buildings, 8400 weekly worshipers (about 0.8% of the total population), 98 full time equivalent (FTE) stipendiary posts 11NSM's, 11 curates. The average congregation (excluding the cathedral) is 34. On average, each full-time post serves a population of 10,500 and we have one church building for a population of 4,480.

Gall Ardaloedd Gweinidogaeth amrywio o:

- gasgliad o blwyfi gwledig bach yn cydweithio
- i Fywoliaeth Reithorol drefol gyda thîm o staff ordeiniedig a lleyg llawn amser, yn gwasanaethu 30-50,000 o bobl

Yn aml, mae partneriaethau eisoes wedi mynd cryn bellter ar y daith i fod yn Ardaloedd Gweinidogaeth.

Mewn llawer o'r partneriaethau:

- Bydd clerigion yn cyfarfod bob wythnos i weddïo
- Trwyddedwyd Gweinidogaethau Trwyddedig i bob plwyf
- Dethlir digwyddiadau arbennig ar y cyd
- e.e. Yr Wythnos Sanctaidd, Deled Dy Deyrnas
- Trefnir digwyddiadau plant a phobl ifanc i'r holl bartneriaid
- Mae cyfamod neu gytundeb partneriaeth

Mewn un bartneriaeth, mae plwyf Trefol mawr yn cefnogi eglwys fechan sydd bellach yn dechrau ffynnu. Awgryma Arolwg yr Eglwys yng Nghymru nad Ardal Weinidogaeth yw'r model iawn ar gyfer pob eglwys. Serch hynny, pan fo eglwys yn annibynnol ac yn cynnal ei hun, dylai fod yn estyn allan i gefnogi eglwysi eraill o'i chwmpas.

**Ystadegau Esgobaeth Llandaf**

Mae Esgobaeth Llandaf, fel sawl un arall, yn cwmpasu cymunedau ffermio gyda rhwydwaith o eglwysi hynafol ynghyd â threfi diweddar a phentrefi, diwydiannol ac ôl-ddiwydiannol. Mae llawer o'r cymoedd yn dal i fod yn gymunedau agos pentrefol, heb lawer o gyfleustra i gyrraedd trefi eraill. Mae 19% o'r Esgobaeth yn wledig ei naws ond mae'n cynnwys rhan fawr o'r Brifddinas.

Yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol, ar gyfartaledd mae 32.1% o boblogaeth Cymru'n dweud nad oes ganddyn nhw unrhyw ffydd grefyddol. Mae'r nifer cyfartalog sy'n dweud nad oes ganddyn nhw ffydd grefyddol yn ardal Rhondda Cynon Taf yn 40.8% ac mewn llawer o wardiau mae'n uwch na 50%.

Mae plwyfi Llandaf yn gwasanaethu ychydig mwy nag 1 miliwn o bobl, sef traean o boblogaeth Cymru. Mae gennym ni oddeutu 230 o adeiladau eglwysig, 8400 o addolwyr wythnosol (tua 0.8% o'r boblogaeth gyfan), 98 o swyddi cyflogedig cyfatebol i lawn amser, 11NSM, 11 o guradiaid. Ar gyfartaledd mae'r cynulleidfaoedd yn cynnwys 34 (ac eithrio'r gadeirlan). Ar gyfartaledd mae pob swydd llawn amser yn gwasanaethu poblogaeth o 10,500 ac mae gennym un adeilad eglwysig ar gyfer poblogaeth o 4,480.

**Ministry Areas in Monmouth Diocese**

A Ministry Area in the Diocese of Monmouth is a gathering of local churches and benefices who are committing to work together ever more closely in support of their development of:

- Personal and corporate discipleship and nurture
- Ministry
- Their missional call to their wider communities
- Better sharing and use of resources.

Ministry Areas are missional concepts and do not require any changes to existing constitutional patterns of parish or rectorial benefice life. Any such changes can be made if churches within a Ministry Area wish to do so.

In Monmouth Diocese, Ministry Areas are the consequence of a commitment to establishing a new pattern of local oversight of larger numbers of local churches together with the need to explore the creation of new styles and patterns of local Christians meeting together. This oversight became known as Ministry Area Leadership.

The drivers of creating this new pattern of oversight have included:

- The steady decline of existing church life
- Increasing inability of the church to sustain the previous pattern of stipended local ordained ministry
- The need to provide for the emergence of Pioneer Ministries and new expressions of church and corporate local Christian life.

The role description for this new practice of oversight was created six or seven years ago. It identified four priorities:

⇒ To enable the development of personal and corporate discipleship and ministry within local Christian communities drawing on both tradition and contemporary insights.

⇒ To guide the local Christian community into recognition of its corporate missional role and to enable them to fulfil it.

⇒ To engage interpret and understand the contemporary world locally and more broadly so as to lead the local Christian communities within the Ministry Area to share in those skills and engage them too.

⇒ To commit pro-actively to a personal spiritual well-being which is robust and mature.

**Ardaloedd Gweinidogaeth Esgobaeth Mynwy**

Mae Ardal Weinidogaeth Esgobaeth Mynwy yn gasgliad o eglwysi lleol a bywoliaethau sy'n ymroi i gydweithio'n agosach er mwyn cefnogi'r gwaith o ddatblygu:

- Disgyblaeth a meithrinfa bersonol a chorfforaethol
- Gweinidogaeth
- Eu galwad cenhadol i'w cymunedau ehangach
- Rhannu a gwneud gwell defnydd o adnoddau.

Mae Ardaloedd Gweinidogaeth yn gysyniadau cenhadol ac nid oes angen unrhyw newid i batrymau cyfansoddiadol presennol bywyd y plwyfi na'r fywoliaeth reithorol. Gellir gwneud unrhyw newid o'r fath os dyna yw dymuniad eglwysi'r Ardal Weinidogaeth.

Yn Esgobaeth Mynwy, mae Ardaloedd Gweinidogaeth yn ganlyniad i ymrwymiad i sefydlu patrwm newydd o oruchwylio niferoedd mwy o eglwysi lleol ynghyd â'r angen i archwilio'r gwaith o greu patrymau ac arddulliau newydd o Gristnogion lleol yn cyfarfod â'i gilydd. Arweinyddiaeth Ardal Weinidogaeth yw'r enw a roddwyd ar yr oruchwyliaeth hon.

Mae'r sbardunau i greu'r patrwm newydd hwn o oruchwylio wedi cynnwys:

- Dirywiad cyson bywyd eglwysig presennol
- Anallu cynyddol yr eglwys i gynnal patrwm blaenorol gweinidogaeth ordeiniedig leol gyflogedig
- Yr angen i ddarparu ar gyfer dyfodiad Gweinidogaethau Blaengar a ffyrdd newydd o fynegi bywyd Cristnogol lleol corfforaethol a'r eglwys.

Crëwyd rôl ddisgrifiad ar gyfer yr arfer newydd hon o oruchwylio chwech neu saith mlynedd yn ôl. Nodwyd pedair blaenoriaeth:

⇒ Galluogi datblygiad disgyblaeth gorfforaethol a phersonol a gweinidogaeth mewn cymunedau Cristnogol lleol trwy gyfrwng dealltwriaeth gyfoes a thraddodiadol.

⇒ Arwain y gymuned Gristnogol leol i gydnabod ei rôl genhadol gorfforaethol a'i galluogi i'w chyflawni.

⇒ Ennyn diddordeb, dehongli a deall y byd cyfoes yn lleol ac yn ehangach er mwyn arwain y cymunedau Cristnogol lleol yn yr Ardal Weinidogaeth i rannu yn y sgiliau hynny ac ennyn eu diddordeb hwy hefyd.

⇒ Ymrwymo'n rhagweithiol i les ysbrydol personol sy'n gadarn ac aeddfed.

A new formational training program for Ministry Area Leadership was created and began in 2013.

18 people are engaged in or have completed the formational training so far and between 9 and 12 will begin in the Autumn of 2017.

The Diocese of Monmouth presently has 180 churches and 120 parishes and it is expected that 25 Ministry Areas will be created to embrace and serve them in their life and mission. The shaping of Ministry Areas across the diocese builds on work to encourage better local collaborative working begun back in 2005 and is now virtually complete. The establishment of several Ministry Areas has been celebrated.

Monmouth Diocese is currently working with a target of 50 stipended ministers. There are presently 46 in post with 4 vacancies. The diocese also has 56 unstipended and house for duty ordained ministers and 300 lay ministers (LLM-Readers and Lay Eucharistic Ministers).

The Transformation Fund monies allocated to Monmouth Diocese have been used to fund:

- The Ministry Area Leader training program
- Central Diocesan staff to develop the concept of Ministry Areas locally
- Grants for projects within emerging Ministry Areas
- External training providers – especially to support the creation of Ministry Area Councils
- A Pioneer Ministry Development Officer
- An additional Children's, Youth and Family Ministry Adviser (CYFMA)
- Enhanced communication resources
- Lay Training.

A number of challenging issues have emerged during this process so far which include:

⇨ The demands of traditional church expectations of clergy inhibit the capacity to engage in the new MAL role.

⇨ Resistance to change – notwithstanding the steady contraction of traditional church life – remains strong and obstructive in some congregations.

⇨ Some clergy experience difficulty in leaving behind the familiar practice of presbytero-parochial patterns of ministry in order to take on the Ministry Area Leadership role.

⇨ The occasional office fee payment system (especially funerals) perpetuate inequalities between livings and dependence on those fees inhibits the ability to delegate occasional offices to others.

The recent introduction of a Bishop's Audit process in the diocese is designed to support parishes and emerging Ministry Areas in making hard decisions.

Crëwyd rhaglen hyfforddi ffurfiannol newydd ar gyfer Arweinyddiaeth Ardal Weinidogaeth a chafodd ei rhoi ar waith yn 2013.

Mae 18 o bobl wrthi'n dilyn neu wedi cwblhau'r rhaglen ffurfiannol hyd yma a bydd rhwng 9 a 12 yn cychwyn yn ystod Hydref 2017.

Ar hyn o bryd mae gan Esgobaeth Mynwy 180 o eglwysi a 120 o blwyfi a disgwylir creu 25 o Ardaloedd Gweinidogaeth i'w cwmpasu a'u gwasanaethu yn eu bywyd a'u cenhadaeth. Mae ffurf Ardaloedd Gweinidogaeth ar draws yr esgobaeth yn datblygu gwaith a gychwynnwyd yn 2005 i annog gwell cydweithio lleol, gwaith sydd ar fin ei gwblhau erbyn hyn. Cafodd nifer o'r Ardaloedd Gweinidogaeth a sefydlwyd eu dathlu.

Mae Esgobaeth Mynwy wrthi ar hyn o bryd yn gweithio gyda tharged o 50 weinidogion cyflogadwy. Ar hyn o bryd, mae 46 o swyddi wedi'u llenwi a 4 yn wag. Hefyd, mae gan yr esgobaeth 56 o weinidogion anghyflogedig a gweinidogion ordeiniedig tŷ dyletswydd a 300 o weinidogion lleyg (LLM-Darllenwyr a Gweinidogion Ewcharistig Lleyg).

Defnyddiwyd arian y Gronfa Trawsnewid a ddyrannwyd i Esgobaeth Mynwy i ariannu:

- Rhaglen hyfforddiant Arweinydd yr Ardal Weinidogaeth
- Staff Canolog yr Esgobaeth i ddatblygu'r cysyniad o Ardaloedd Gweinidogaeth yn lleol
- Grantiau ar gyfer prosiectau yn yr Ardaloedd Gweinidogaeth newydd
- Darparwyr hyfforddiant allanol – yn enwedig i gefnogi'r gwaith o greu Cynghorau Ardaloedd Gweinidogaeth
- Swyddog Datblygu Gweinidogaeth Flaengar
- Cynghorydd Gweinidogaeth Plant, Ieuenctid a Theuluoedd newydd (CYFMA)
- Adnoddau cyfathrebu gwell
- Hyfforddiant i Leygion.

Daeth nifer o faterion heriol i'r fei yn ystod y broses hyd yma gan gynnwys:

⇨ Mae gofynion disgwyliadau'r eglwys draddodiadol yn cyfyngu ar allu i ymgysylltu â rôl newydd yr Ardal Weinidogaeth Leol.

⇨ Mae amharodrwydd i newid – yn ogystal â chrebachu cyson ar fywyd traddodiadol yr eglwys – yn parhau'n gryf ac yn rhwystrol mewn rhai cynulleidfaoedd.

⇨ Mae rhai clerigion yn ei chael hi'n anodd gadael y patrymau plwyfol-presbyteraidd arferol o weinidogaethu er mwyn ymgymryd â rôl Arweinyddiaeth Ardal Weinidogaeth.

⇨ Mae'r drefn talu ffioedd am waith achlysurol (yn enwedig angladdau) yn parhau anghydraddoldebau rhwng bywoliaethau ac mae dibyniaeth ar y ffioedd

**Conclusions**

Ministry Areas are intended to be:

- ⇒ Incarnational in that they are rooted in local communities with local leadership.
- ⇒ Apostolic in having leaders with responsibility for teaching, fostering vocation and empowering others in ministry.
- ⇒ Missional in seeking new opportunities for ministry and evangelism.
- ⇒ Prophetic in that they recognise the signs of the times and plan for the future.
- ⇒ Visionary in that they require a new way of responding to God's call to extend his Kingdom.
- ⇒ The role of the Ministry Area Leader is to enable the areas committed to their oversight to grow into this way of being.

hynny yn rhwystro'r gallu i ddirprwyo rhai swyddogaethau achlysurol i eraill.

Mae proses Archwiliad Esgob wedi'i chyflwyno'n ddiweddar yn yr esgobaeth er mwyn cefnogi plwyfi ac Ardaloedd Gweinidogaeth newydd i wneud penderfyniadau anodd.

**Casgliadau**

Bwriedir i Ardaloedd Gweinidogaeth fod:

- ⇒ Yn ymgnawdoliadol am eu bod wedi'u gwreiddio mewn cymunedau lleol gydag arweinyddiaeth leol
- ⇒ Yn apostolaidd gan fod gan eu harweinwyr gyfrifoldeb am addysgu, meithrin galwedigaeth a grymuso eraill mewn gweinidogaeth
- ⇒ Yn genhadol wrth geisio chwilio am gyfleoedd newydd i weinidogaethu ac efengylu
- ⇒ Yn broffwydol wrth gydnabod arwyddion yr amserau a chynllunio at y dyfodol
- ⇒ Yn meddu ar weledigaeth wrth geisio ffordd newydd o ymateb i alwad Duw i ehangu ei Deyrnas.
- ⇒ Rôl Arweinydd yr Ardal Weinidogaeth yw galluogi'r ardaloedd mae wedi ymrwymo i'w goruchwylio i dyfu i adlewyrchu'r ffordd o fyw a ddeisyfir.

**Establishing Ministry Areas**

In Swansea & Brecon, our initial eleven deaneries were re-formed into four deaneries, and a total of twenty ministry areas. Of the 20 ministry areas, 14 have now been inaugurated. Four further inauguration dates have been set, one postponed and the remaining inauguration date is to be finalised. One ministry area has been commissioned and a second commissioning date will be announced shortly.

A leader has been appointed to each ministry area and in February 2016 our ministry area leaders attended a residential training course at Sarum College. Throughout the spring and summer of 2016 our leaders were mentored and supported as they worked in their new teams. A follow-up residential training course was held in the autumn of 2016. Quarterly meetings are held with the ministry area leaders, area deans and bishop's staff to encourage group discussion and a sharing of experiences.

Ministry area work packs have been developed and circulated throughout the diocese with the focus on planning for growth. The work packs included worksheets to initiate internal audits of buildings, finances, and identifying gifts and skills. Our church building quinquennial inspection programme has been re-scheduled to be co-ordinated by ministry area and thereby facilitate informed audits.

Some ministry areas are more developed than others, and vary in the resources and skills that they have and require. An application process has been developed for the granting of the transformation fund, reviewed by our diocesan funding committee. Applications to date have been awarded to support a variety of activities; which include ministry area development days and the employment of administrators and youth workers. A Bishop's Officer for Family Ministry has been appointed to one of our deaneries.

**Future Developments**

The next phase of progression for our teams will be supported by the introduction of a full time Diocesan Ministry Area Development Officer. The job description is being finalised and the post will be advertised shortly.

Three additional Bishop's Officers for Family Ministry will be appointed to the remaining deaneries. These roles are also due to be advertised shortly.

The archdeacons' visitations for 2017 will focus on building audits, staffing and collaborative working within the ministry area.

Further grants are anticipated from the transformation fund as the ministry areas continue to grow. The diocese has provided match funding to this restricted fund to support future development.

**Sefydlu Ardaloedd Gweinidogaeth**

Mae un ar ddeg deoniaeth wreiddiol esgobaeth Abertawe ac Aberhonddu wedi'u had-drefnu yn bedair deoniaeth, ac yn ugain o ardaloedd gweinidogaeth i gyd. Mae 14 o'r ardaloedd gweinidogaeth wedi'u sefydlu erbyn hyn. Mae pedwar dyddiad sefydlu arall wedi'u pennu, un wedi'i ohirio a'r dyddiad sefydlu arall eto i'w drefnu. Comisiynwyd un ardal weinidogaeth a bydd ail ddyddiad comisiynu'n cael ei gyhoeddi'n fuan.

Penodwyd arweinydd i bob ardal weinidogaeth ac ym mis Chwefror 2016 bu arweinwyr ein hardaloedd gweinidogaeth ar gwrs hyfforddi preswyl yng Ngholeg Sarum. Gydol gwanwyn a haf 2016, cafodd ein harweinwyr eu mentora a'u cefnogi wrth iddynt weithio yn eu timau newydd. Cynhaliwyd cwrs hyfforddi preswyl dilynol yn hydref 2016. Cynhelir cyfarfodydd chwarterol gydag arweinwyr yr ardaloedd gweinidogaeth, deoniaid ardal a staff yr esgob i annog trafodaeth grŵp a rhannu profiadau.

Datblygwyd pecynnau gwaith ardaloedd gweinidogaeth a chawsant eu dosbarthu ledled yr esgobaeth gan ganolbwyntio ar gynllunio ar gyfer twf. Roedd y pecynnau gwaith yn cynnwys taflenni gwaith i sbarduno archwiliadau mewnol o adeiladau, cyllid ac adnabod rhoddion a sgiliau. Mae ein rhaglen archwilio adeiladau eglwysi pum mlynedd wedi'i haildrefnu a bydd yn cael ei chydgysylltu gan yr ardal weinidogaeth ac felly'n hwyluso archwiliadau gwybodus.

Mae rhai ardaloedd gweinidogaeth wedi datblygu i raddau mwy nag eraill, ac yn amrywio o ran yr adnoddau a'r sgiliau sydd ganddynt ac sydd eu hangen. Datblygwyd proses ymgeisio ar gyfer cael arian o'r gronfa drawsnewid, wedi'i hadolygu gan bwyllgor cyllid yr esgobaeth. Hyd yn hyn, mae'r ceisiadau wedi'u dyfarnu i gefnogi amrywiaeth o weithgareddau; sy'n cynnwys dyddiau datblygu ardaloedd gweinidogaeth a chyflogi gweinyddwyr a gweithwyr ieuenctid. Penodwyd Swyddog Gweinidogaeth Teuluoedd yr Esgobaeth i un o'n deoniaethau.

**Datblygiadau Pellach**

Bydd cam datblygu nesaf ein timau yn cael ei gefnogi drwy gyflwyno Swyddog Datblygu Ardal Gweinidogaeth Esgobaeth llawn amser. Mae fersiwn derfynol y disgrifiad swydd yn cael ei llunio ar hyn o bryd a bydd y swydd yn cael ei hysbysebu'n fuan.

Bydd tri Swyddog Gweinidogaeth Teulu yr Esgob ychwanegol yn cael eu penodi i'r deoniaethau eraill. Bydd y swyddi hyn yn cael eu hysbysebu'n fuan.

Bydd ymweliadau'r archddiaconiaid yn 2017 yn canolbwyntio ar archwiliadau o adeiladau, staffio a chydweithio yn yr ardal weinidogaeth.

Rhagwelir y bydd y gronfa drawsnewid yn darparu grantiau pellach wrth i'r ardaloedd gweinidogaeth barhau i dyfu. Mae'r esgobaeth wedi darparu arian cyfatebol i'r gronfa gyfyngedig hon i gefnogi datblygiad pellach.

1679
Mehefin / June
2017